# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 27 TACHWEDD am 10:00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 27 NOVEMBER 2024 at 10:00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC Y RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen *(Is-Gadeirydd/Vice Chair),* Dylan Rees, Ken Taylor

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Aled M Jones

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024.

3 **DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol.

4 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2025/26** (Tudalennau 17 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

5 **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 21 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Llio A Owen (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Hyfforddi a Datblygu (EP),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans, Carwyn Jones, Aled Morris Jones |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor a chadarnhawyd eu bod yn gywir, fel a ganlyn:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024.

**3. DATBLYGU AELODAU**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu ar y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig 2024/25.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu a Hyfforddi ar y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024/2025 a oedd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 yn yr adroddiad. Dywedodd bod y Cynllun yn parhau i gael ei rannu'n gategorïau, h.y. Hyfforddiant Mandadol; Ychwanegol; Iechyd a Llesiant; Ar gais a Modiwlau E-ddysgu sydd ar gael ar y Llwyfan E-ddysgu, y Gronfa Ddysgu. Dywedodd fod 37 o sesiynau datblygu wedi cael eu cynnig i Aelodau Etholedig hyd yma ers mis Ebrill 2023. Er mwyn lliniaru a blaenoriaethu'r hyn a gynigir i aelodau etholedig mae 22 llai o sesiynau wedi eu cynnig o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 yn yr adroddiad sydd yn amlygu nifer yr aelodau a dderbyniodd wahoddiadau i fynychu hyfforddiant a faint o aelodau a fynychodd y

sesiynau mewn gwirionedd. Nododd fod yr angen i fynychu hyfforddiant gorfodol yn cael ei bwysleisio, ond mae presenoldeb yn y sesiynau hyn yn is nag y dymunir. Mae hyn serch bod nifer o ddigwyddiadau sy'n amrywio o ran eu ffurf a'u hamseriad yn cael eu cynnig, h.y., wyneb yn wyneb, rhithwir a sesiynau gyda'r nos. Nid yw'r aelodau hynny sydd heb fynychu hyfforddiant wedi derbyn gwybodaeth sy'n allweddol iddynt er mwyn cyflawni eu rôl ac mae hynny'n creu pryder penodol. Rhaid cydnabod hefyd bod y sefyllfa'n effeithio ar ymdrechion i ddatblygu'r rhaglen ehangach oherwydd yr angen parhaus i drefnu sesiynau ychwanegol ar gyfer cyrsiau a ddarparwyd yn barod.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu hefyd fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, ar gais y Pwyllgor Safonau, ynglŷn â llunio Cynllun pwrpasol ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ac mae hyn yn cael ei amlygu yn yr adroddiad. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu'n parhau i weithio'n agos â'r Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod i sicrhau fod y cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion yr Aelodau Etholedig a'i fod yn parhau i ddatblygu'n unol â'r galw.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cododd y Pwyllgor y pwyntiau trafod canlynol ac ymatebodd y Swyddogion i'r cwestiynau a godwyd.

- Fel yr amlygir yn yr adroddiad, mae'n siomedig bod llai nag y dymunir o Aelodau Etholedig yn mynychu sesiynau hyfforddi gorfodol. Awgrymwyd y gallai Aelodau'r Pwyllgor hwn siarad â'r aelodau hynny sydd heb fynychu'r sesiynau hyn. Holwyd a fyddai'n bosib darparu enwau'r Aelodau sydd heb fynychu'r hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth bod dulliau anffurfiol a ffurfiol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo hyfforddiant ymysg Aelodau Etholedig. Mae Arweinyddion Grwpiau'n derbyn diweddariad chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth am bob aelod o'r grŵp sydd wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a'r aelodau sydd heb fynychu. Nododd y gellid anfon neges at Arweinyddion Grwpiau er mwyn mynegi pryderon y Pwyllgor. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor bod angen amlygu pa sesiynau hyfforddiant sydd angen eu blaenoriaethu a pha rai sy'n ddewisol.
- Gofynnwyd p'un a yw presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi'n cael ei gofnodi ar wefan y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod gwybodaeth am bresenoldeb ar gyrsiau hyfforddi'n cael ei arddangos o dan broffil pob Aelod Etholedig ar y wefan.
- Dywedodd yr aelodau hefyd bod yr Adran Gynllunio'n darparu sesiynau hyfforddi i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn rheolaidd, ond dim ond hanner aelodau'r Pwyllgor fydd yn mynychu. Ystyrir bod y sesiynau hyn yn hanfodol er mwyn i Aelodau Etholedig ddeall y penderfyniadau cymhleth sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio. Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu y byddai'n fodlon cynorthwyo'r Adran Gynllunio i hyrwyddo'r gofyn i aelodau fynychu'r sesiynau a ddarperir.
- Cyfeiriwyd at y cyrsiau Cymraeg a ddarperir ar gyfer staff ac Aelodau Etholedig, o gyrsiau sylfaenol i gyrsiau uwch. Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu fod 133 aelod o staff wedi dangos diddordeb mewn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ar wahanol lefelau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**4. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD ATODOL: ADOLYGIAD O DALIADAU I AELODAU LLEYG CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod yr adroddiad yn cyfeirio at daliadau i aelodau lleyg y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) a diwygiwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel awdurdodau perthnasol o fewn swyddogaethau'r Panel. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru'n cynnwys prif gynghorau Gwynedd, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ychwanegodd fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y bydd aelodau lleyg y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu talu ar yr un sail ag aelodau cyfetholedig (lleyg) sydd â hawliau pleidleisio. Bydd y taliad i'r aelodau lleyg hyn yn debyg i'r taliad a wneir i aelodau cyfetholedig (lleyg) eraill pwyllgorau llywodraeth leol a thynnwyd sylw at dabl o daliadau arfaethedig oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD nodi penderfyniad atodol y Panel mewn perthynas â thaliadau i aelodau lleyg Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

**5. YMGYNGHORIAD AR YMESTYN DARPARIAETHAU RHANNU SWYDD AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG NAD YDYNT YN AELODAU O'R WEITHREDIAETH**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth ar yr ymgynghoriad ar Ymestyn Darpariaethau Rhannu Swydd ar gyfer Aelodau Etholedig nad ydynt yn aelodau o'r Weithrediaeth.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth i hwyluso trefniadau rhannu swydd mewn rolau sy'n rhan o weithrediaeth (Pwyllgor Gwaith) Cynghorau Sir. Rhoddwyd hynny ar waith ym Môn ym mis Mawrth 2023 pan gytunodd y Cyngor Sir i newid y cyfansoddiad er mwyn caniatáu i un neu fwy o Aelodau rannu swydd Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu fel Aelodau Portffolio o'r Pwyllgor Gwaith. Yn dilyn hynny mae trefniadau rhannu swydd wedi bod yn weithredol gyda dau aelod yn rhannu swydd Dirprwy Arweinydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymgynghori ar gynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth rhannu swydd i rolau uwch eraill hefyd, yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod cynnig opsiynau i aelodau rannu swydd yn gallu hybu amrywiaeth, yn gallu sefydlu llwybrau dilyniant gyrfa ac yn gallu helpu'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, codwyd y pwyntiau trafod a ganlyn gan y Pwyllgor.

- Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r trefniadau rhannu swydd a gytunwyd gan y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2023, gofynnwyd beth fyddai rôl Is-gadeiryddion pe byddai'r ddarpariaeth rhannu swydd yn cael ei gweithredu. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y gallai'r rolau fod yn gymhleth i'w gweinyddu ac felly mae canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rôl rhannu swydd yn holl bwysig er mwyn cynnig eglurhad. Os daw'r trefniadau hyn i rym, bydd angen diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb a darparu canllawiau lleol priodol.
- Mynegwyd bod camddealltwriaeth ynglyn â thaliadau i'r ddau Ddirprwy Arweinydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn annerbyniol. Dywedodd y Pennaeth nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer dau Ddirprwy Arweinydd yn creu costau ychwanegol gan eu bod yn rhannu lwfans y Dirprwy Arweinydd.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau presennol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau yn gweithio'n dda ac y dylai'r Awdurdod gynnwys hynny yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD cytuno â chynnwys yr ymateb drafft i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chynnwys barn y Pwyllgor bod y ddarpariaeth yn gweithio'n dda ar Ynys Môn a'i fod yn pryderu am yr effaith ar rôl yr Is-gadeiryddion, fel y nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:45pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | 27ain TACHWEDD 2024 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR HYFFORDDI A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I DDARPARU DIWEDDARIAD AR GYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2024/2025 |

## 1. RHAGARWEINIAD

Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Hyfforddiant a Datblygu Aelodau Etholedig 2024/2025 i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 2. DIWEDDARIAD AR RAGLEN DATBLYGU 2024-2025

Fel â gyflwynwyd i chi yn flaenorol, mae'r cynllun ar gyfer 2024-25 (Atodiad 1) wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn darparu diweddariad isod ar ddarpariad o hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd yn hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 39 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Hyfforddi Adnoddau Dynol. Manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | | |
|---|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 | - |
| Iechyd a Diogelwch | 33/35 | Trefnwyd sesiynau rhithiol pellach ym mis Hydref 2024. |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 31/35 | Mae gwahoddiad wedi ei ymestyn i AE ymuno mewn sesiynau staff wedi eu trefnu at 03/12/24. |
| Diogelu Data | 33/35 | Estynwyd gwahoddiad i AE fynychu sesiynau staff ar 19/11/24. |
| Seiberddiogelwch | 34/35 | Rhannu fideo diogelwch seiber. |
| Diogelu | 29/35 | Trefnwyd sesiynau pellach ddiwedd Tachwedd 2023. |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu y teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae niferoedd cwblhau rhai o'r teitlau hyn wedi parhau'n îs nag sy'n ddymunol. Hynny er gwaethaf cynnig sawl digwyddiad dros nifer o flynyddoedd bellach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn rydym wedi edrych i amrywio ffurf ag amseriad y digwyddiadau. Lle bo hyn wedi ei weithredu rydym wedi gweld cynnydd yn y ffigyrau cwblhau.

## 3. CYFATHREBIADAU

Mae'r tîm hyfforddi yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth Democrataidd a Swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion yr Aelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu yn ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost CefnogaethAelodau, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag Arweinwyr Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi sydd ar gael mewn fformat sy'n haws ei ddilyn yn parhau. Mae'r rhain yn cael eu rhannu gydag Aelodau Etholedig (Atodiad 3) drwy gyfrwng ebost gyda chopïau caled hefyd ar gael yn Lolfa'r Aelodau.

## 4. DULLIAU O DDARPARU

Ar y cyfan, mae'r sesiynau'n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, yn fwy diweddar rydym wedi ymestyn y ddarpariaeth hon i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol yn ogystal gydag opsiwn pellach lle'n addas ac yn berthnasol i fod yn recordio sesiynau at ddefnydd pellach. Noder, bod dull cyflwyno yn ddibynnol ar y pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffefrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Lle bo modd, ceisir hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a threfnir gwasanaeth cyfieithu i'r rhai sy'n dymuno gwrando trwy gyfrwng y Saesneg.

## 5. I GRYNHOI

Mae'r cynllun a gyflwynir yn ddogfen sy'n esblygu a bydd yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 6. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future

# AELODAU ETHOLEDIG

## *CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU*

**MAI 2023 – MAWRTH 2024**

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.*

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
| --- | --- | --- | --- |
| **Hyfforddiant Mandadol** | | | |
| **CÔD YMDDYGIAD** | • Trosolwg o trefniadau Democrataidd; *h.y. Mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog, ayyb* | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb ) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT** | • Deallt y rôl Aelodau Etholedig o ran Cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **MATERION DIOGELU –** *PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED* | Trais Domestig / Trais yn erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rhwystro<br>• Ymwybyddiaeth Diogelu | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DELIO GYDA DATA PERSONOL / GWYBODAETH PERSONOL:** *EICH CYFRIFOLDEBAU FEL AELOD ETHOLEDIG* | • Ddeallt rhwymedigaeth cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>• Deallt gofynion penodol y Ddeddf<br>• Deallt sut i gydymffurfio a'r Ddeddf. | Modiwl E-Ddysgu<br>*(bob 3 mlynedd)*<br>**ac**:<br>Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) - Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A DIOGELWCH** – *ARWAIN YN DDIOGEL* | • Deallt gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch, o safbwynt Aelodau Etholedig<br>• Trosolwg cyffredin o Diogelwch Personol i Aelodau | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU CADEIRIO** | • Sut i arwain a chyfrannu at gynnal Pwyllgorau Effeithiol | Cyflwyniad: (rhithiol)<br>*i'w hadnewyddu pob 2 flynedd*<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Cadeiryddion ac Îs-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau |
| **CYNLLUNIO A THRWYDDEDU, LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | • Hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | |
| **SGILIAU TGCH I DDECHREUWYR** | • Cynorthwyo Aelodau Etholedig sydd â trafferthion yn defnyddio offer TGCh | I fyny at tair o sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU TGCH CANOLOG** | • Datblygu sgiliau TGCh Aelodau | Sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFLWYNIAD I NEWID HINSAWDD** | | Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **DIFENWAD** | • Sut i osgoi ac/neu lliniaru yn erbyn unrhyw cais/ceisiadau difenwad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **RHEOLAETH CYLLID A THRYSORLYS** | • Dealltwriaeth o faterion ariannol<br>• Gosodiad Cyllided, ayyb. | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog Adran 151 / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DELIO GYDA'R WASG** | • Sesiwn ymarferol sy'n darparu Aelodau Etholedig gyda profiad o cynnal cyfweliadau radio a theledu<br>• Siawns i Aelodau gael ffug-gyfweliadau ac ymarfer | Cyflwyniad â cyfweliadau-ffug, a copïau i gadw<br>(wyneb i wyneb)<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| | TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | | |
| | **YMWYBYDDIAETH DIWYLLIANOL SIPSIWN A THEITHWYR** | • Hyfforddiant Rhagarweiniol ar weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru | Cyflwyniad â gweithgaredd (wyneb-i-wyneb)<br><br>Tai/Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **SESIYNAU BRIFFIO** | • Materion Pwnc Perthnasol a Chyfredol yn cael eu cyflwyno a'u trafod | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **Iechyd a Llesiant** | | | | |
| Tudalen 11 | **DIOGELWCH PERSONOL / DELIO Â SEFYLLFEYDD ANODD** | • Trosolwg o sgiliau a thechnegau gellid ei mabwysiadu i sicrhau diogelwch personol, ac i allu delio â sefyllfaoedd heriol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **IECHYD A LLEISIANT –** *CYFFREDINOL AC YMWYBYDDIAETH* | • Darparu dealltwriaeth o:<br>- Hydwythdedd<br>- Cydbwysedd bywyd gwaith<br>- Rheoli Straen<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | Modiwlau e-Ddysgu ar gael<br><br>Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **YMWYBYDDIAETH MENOPOS** | • Trosolwg i'r rhai sy'n profi Menopos neu'n dymuno codi eu hymwybyddiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **YMWYBYDDIAETH OFALGAR** | • Sesiynau byr i drafod effaith straen ar y corff ac awgrymiadau ymlacio | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ar Gais** | | | |
| **SGILIAU DATBLYGU TGCH** | • Sesiynau galw-heibio / Un-i-Un<br>• Cynorthwyo â Sgiliau TGCH / Meddalwedd penodol | Wyneb-i-wyneb<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | • Deall sut i wneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Aelodau Etholedig;<br>• Beth i'w rannu a'i beidio;<br>• Sut i beidio ymddwyn ar Gyfryngau Cymdeithasol;<br>• Elfennau Bwlio a Diogelwch Personol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **CRAFFU** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Craffu<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion Craffu effeithiol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | All Elected Members |
| **ARCHWILIAD** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Archwiliad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol / Allanol | Holl Aelodau Etholedig |

## MODIWLAU E-DYSGU

*Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at E-Ddysgu. Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael.*

| Modiwlau Hanfodol | Datblygu Aelodau | Iaith Cymraeg |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth Seibr **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Cynllunio at Argyfwng i Aelodau **(gloywi i'w gytuno ar)**<br>- Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol<br>- Atal **(i'w hadnewyddu yn ôl yr angen)**<br>- Caethwasiaeth Modern **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)** | - Moeseg a Safonau<br>- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br>- Craffu Effeithiol<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | - Safonau'r Cymraeg<br>- Cymraeg yn y Gweithle (1)<br>- Cymraeg yn y Gweithle (2) |
| **Llesiant** | **Iechyd a Diogelwch** | **Cyrsiau Corfforaethol** |
| - Iechyd a Lles yn yr Awdurdod | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel - Asesiad Gweithle | - *Y Gronfa Ddysgu: Bwcio ar-lein* |

Tudalen 13

**Gellir defnyddio nifer o'r modiwlau e-Ddysgu: i ategu sesiynau dosbarth/*hybrid* a gynhelir; fel modiwlau adnewyddu yn ôl yr angen; eu defnyddio fel darpariaeth Datblygiad Personol ychwanegol i Aelodau.**

**Noder fod y cynllun hon yn un esblygiadol, ac felly mae'n debygol bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni unrhyw newidiadau mewn anghenion/blaenoriaethau. Pe bae amgylchiadau annisgwyl tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosib bydd angen diwygio rhai o'r dyddiadau/amseroedd nodir uchod.**

**Bydd manylion y sesiynau hyfforddiant yn cael ei anfon i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (yn ôl yr angen) fel ffurf e-bost/apwyntiad calendr.**
**Rhoddir o leiaf 7 diwrnod o rybudd, lle'n ymarferol bosib, drwy CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru**

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig yn 2023**

**Training and Development offered to Elected Members in 2023**

| Teitl y Cwrs | Fynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **4** | **20** | **Health & Safety for Members** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | | | **Anti Racism** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | **9** | **35** | **Anti Racism** |
| **Grwp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)** | **9** | **35** | **GROUP 6 – STRENGTHENING LEADERSHIP (VAWDASV)** |
| **Rhentu Doeth Cymru** | **2** | **10** | **Rent Smart Wales** |
| **Grwp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)** | **7** | **19** | **GROUP 6 – STRENGTHENING LEADERSHIP (VAWDASV)** |
| **Hyfforddiant Cynllunio i Aelodau** | **26** | **35** | **Planning Training for Elected Members** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **9** | **8** | **Health and Safety for Members** |
| **Diogelu Data** | **6** | **4** | **Data Protection** |

# Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig

**2023 /24**

## Tachwedd 2023

**15/11/23 - Diogelu Data i Aelodau (*Mandadol**)** **(***Cymraeg***)** - 13:00-14:30 - *Zoom*

**16/11/23 - Diogelu Data i Aelodau (*Mandadol**)** **(***Saesneg***)** - 18:00-19:30 - *Zoom*

**20/11/23 - Cyf. i Newid Hinsawdd** - 09:30-12:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**20/11/23 - Cyf. i Newid Hinsawdd** - 17:30-20:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**27/11/23 - Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau (*Mandadol**)** - 18:00-19:00 - *Zoom*

**29/11/23 - Digwyddiad Llesiant a Gorflino** - 13:30-15:00 - *Siambr y Cyngor, Pencadlys*

**30/11/23 - Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** - 13:30-15:30 - *Zoom*

## Rhagfyr 2023

**04/12/23 - Twyll a Llygredd i Aelodau** - 09:30-12:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**04/12/23 - Twyll a Llygredd i Aelodau** - 17:30-19:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

## Ionawr 2024

## Chwefror 2024

**06/02/24 - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (*Mandadol**)** - 09:30-12:30 - *Zoom*

**19/02/24 - Iechyd a Diogelwch i Aelodau (*Mandadol**)** - TBC - *Zoom*

**19/02/24 - Iechyd a Diogelwch i Aelodau (*Mandadol**)** - 17:30-20:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1'*

**21/02/24 - Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth** - 09:30-11:30 - *Zoom*

**21/02/24 - Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth** - 17:30-19:30 - *Zoom*

***mandadol ar gyfer Aelodau sy'n rhagor**

## Mawrth 2024

**21/03/24 - Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol** - 09:30-11:30 - 'Yst. Hyfforddiant 1'

**21/03/24 - Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol** - 17:30-19:30 - 'Yst. Hyfforddiant 1'

## Dyddiadau i'w gadarnhau:

**Cynllunio a Thrwyddedu (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Cyllid a Rheoli'r Trysorlys (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Sgiliau TGCh Cyffredinol**

**Arwain yn Ddiogel i Aelodau**

**Cefnogaeth Aelodau Etholedig**

CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 27 Tachwedd 2024 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2025 i 2026 |
| **Adroddiad gan:** | Dyfan Sion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ystyried cynigion drafft y Panel ar gyfer 2025 i 2026 ac ymateb i'r ymgynghoriad |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif Gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Bydd y Panel yn ymgynghori tan 29 Tachwedd ar ei gynigion drafft ar gyfer 2025 i 2026 yn ogystal â phedwar cwestiwn ychwanegol. Mae dau ohonynt yn berthnasol i'r Cyngor hwn. Mae'r ddau gwestiwn sy'n weddill yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned – gweler atodiad 1.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi erbyn 28 Chwefror 2025 ac yn weithredol o Ebrill 2025.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Cynigion drafft y Panel ar gyfer 2025 i 2026

### 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddi sydd â hawl i uwch gyflog yn 2024 i 2025 ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cynigion drafft ar gyfer 2025 i 2026:

| **Rôl / Swydd** | **2024-2025** | **2025-2026 (drafft)** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £18,666 | **£19,771** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £59,498 | **£63,020** |
| Dirprwy Arweinydd | £41,649 | **£44,114** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £35,699 | **£37,812** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Cyngor | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £22,406 | **£23,726** |

Golygai'r cynigion uchod y byddai'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn cynyddu gan £71k (7.8%).

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn parhau ar 17.

Mae'r Panel hefyd yn gofyn am farn ynghylch eu cynnig y dylid cynyddu cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog etholwyr – gweler cwestiwn 1 yn atodiad 1.

Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cyflogau a'r lwfansau a delir. Caiff yr holl Benderfyniadau cyfredol eu cyhoeddi ar wefan y Panel.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

### 2.2 Taliadau i aelodau cyfetholedig

Y llynedd, cyflwynodd y Panel yr opsiwn i aelodau cyfetholedig gael eu talu'n unol â chyfradd fesul awr yn hytrach na chyfradd ddyddiol lle yr ystyriwyd bod hynny'n briodol. Hoffai'r Panel wybod a yw awdurdodau perthnasol wedi mabwysiadu'r penderfyniad hwn – gweler cwestiwn 2 yn atodiad 1.

Nid yw'r Cyngor hwn wedi gweithredu'r opsiwn i dalu'r gyfradd fesul awr hyd yn hyn.

## 3.0 Trosglwyddo swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Dyma fydd adroddiad blynyddol olaf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn unol â'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, bydd y Panel yn cael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2025 a bydd ei swyddogaethau'n trosglwyddo i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o 1 Ebrill 2025.

## 4.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- ystyried penderfyniadau drafft y Panel ar gyfer 2025 i 2026 a'r cwestiynau ymgynghori ychwanegol
- awdurdodi swyddogion i ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026:

[Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol drafft 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU]


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Cynyddu cydnabyddiaeth ariannol drwy ddefnyddio Arolwg Blynyddol Cymru o Oriau ac Enillion (ASHE)**

C1. Mae'r Panel yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn ystyriol o'n Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog amrywiaeth mewn cynrychiolaeth.

Felly, rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer Cymru gyfan i gynyddu eu cydnabyddiaeth ariannol yn unol ag enillion cyfartalog eu hetholwyr.

A ydych chi'n credu bod y Panel wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?

**Effaith penderfyniadau cyfredol**

C2: Gan ddilyn tystiolaeth a gafwyd gan Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd Prif Gynghorau, ar hyblygrwydd lleol taliadau i aelodau cyfetholedig, sy'n gwasanaethu ar bwyllgorau Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Ymgynghorodd y Panel hwn ar y cynnig hwn ac roedd yr ymatebion (o'r ymgynghoriad ar adroddiad blynyddol drafft 2024 i 2025) yn cefnogi penderfyniadau'r Panel felly ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Penderfyniadau terfynol. O ganlyniad, penderfynodd y Panel roi hyblygrwydd i swyddogion perthnasol benderfynu a fyddai'n briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Nawr, hoffai'r Panel wybod a yw eich awdurdod perthnasol wedi mabwysiadu'r penderfyniad hwn.

**Cwestiynau sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned:**

C3: Y llynedd, ar y cyd ag Un Llais Cymru, cynhaliodd y Panel seminar ar y broses ar gyfer trin treth ar lwfansau Cynghorau Cymuned a Thref aelodau. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd canllawiau ar sut i gymhwyso'r esemptiad at y lwfans gweithio gartref (£156). Hoffai'r Panel wybod a yw'r seminar a/neu'r canllawiau wedi cynyddu nifer yr aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref sy'n cael y lwfans.

C4: Dylid cofnodi pob lwfans a delir i aelodau etholedig Cynghorau Cymuned a Thref ar y Datganiad Blynyddol o Daliadau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref (gan nodi y byddai Datganiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno gan Gynghorau Cymuned a Thref yn cael eu derbyn). Mae hyn yn cynnwys datganiadau nad ydynt yn nodi unrhyw lwfansau.

Yn gynharach eleni, anfonwyd templed diwygiedig ar gyfer y Datganiad ynghyd â nodyn cyngor i'r Cynghorau Cymuned a Thref. Hoffai'r Panel wybod a yw'r Templed unwaith eto wedi cynyddu nifer y cynghorwyr sy'n hawlio lwfansau?

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 27 Tachwedd 2024 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2024 ar nifer o faterion yn ymwneud â llywodraethu a chefnogaeth aelodau, gan gynnwys protocol cyfarfodydd hybrid, adroddiadau blynyddol, cofrestr diddordebau aelodau a hyfforddiant.

2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariad ar y materion hynny, ynghyd a gwelliannau i drefniadau gweinyddol yn dilyn ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Safonau dros yr haf.

**Protocol Cyfarfodydd Hybrid**

3. Diwygiwyd y Protocol yn 2023 er mwyn rhoi canllawiau clir a chyfredol i aelodau pwyllgorau'r Cyngor ar sut i weithredu mewn cyfarfodydd hybrid ac wrth ymuno o bell. Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Democrataidd ar y pryd.

4. Bwriad y Protocol yw cefnogi ac ategu yr arweiniad a'r rheolau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor drwy roi mwy o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd hybrid. Mae cadeirydd pob pwyllgor yn cyfeirio at y Protocol ar ddechrau cyfarfodydd.

5. Byddwn yn rhannu'r Protocol eto cyn diwedd y flwyddyn er mwyn atgoffa aelodau sy'n ymuno o bell o'r canllawiau a'r prif ddisgwyliadau.

**Data gwe-ddarlledu**

6. Mae'r Cyngor yn darlledu pob cyfarfod Pwyllgor cyhoeddus yn fyw ac mae'r recordiadau ar gael ar wefan y Cyngor am 12 mis ar ôl y cyfarfod.  Dros y

flwyddyn a hanner diwethaf, rydym wedi bod yn casglu data gan y cwmni darlledu sy’n ein galluogi i fonitro faint sy’n gwylio darllediadau pwyllgorau fesul cyfarfod ac fel cyfanswm.

7. Mae data ers Mai 2023 yn dangos mai’r Pwyllgor Cynllunio sydd a’r nifer fwyaf o wylwyr ar gyfartaledd. Rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd ymlaen llaw i nifer o bwyllgorau drwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor a byddwn yn parhau i fonitro’r data gwylio dros y cyfnod nesaf.

8. Rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygu’r adran gwe-ddarlledu ar y wefan i’w wneud yn haws i unigolion allu canfod eitemau unigol mewn cyfarfodydd, ac i adael sylwadau neu adborth.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

9. Derbyniwyd 26 adroddiad blynyddol gan aelodau ar gyfer 23/24, sef yr un nifer a dderbyniwyd ar gyfer 22/23 ac yn gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Mae pob adroddiad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

10. Byddwn yn atgoffa aelodau o’r drefn adroddiad blynyddol yn fuan yn y flwyddyn newydd ac yn rhannu templed adroddiad ar gyfer 24/25. Bydd swyddogion democrataidd ar gael i gynorthwyo yn y ffordd arferol.

**Cofrestru a datgan diddordeb aelodau**

11. Caiff cofrestr diddordeb pob aelod etholedig ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Anfonwyd neges gan gwasanaethau democrataidd at pob aelod ym mis Hydref yn eu hatgoffa i gofrestru unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau o fewn 28 diwrnod gwaith. Rhannwyd canllawiau ynghylch sut i ddiweddaru’r gofrestr ar-lein ac eglurwyd bod cymorth pellach ar gael gan swyddogion democrataidd.

12. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau, ac yn unol â Cod Ymddygiad Aelodau, mae ymdrech pellach wedi ei wneud i sicrhau bod aelodau yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ddatganiad diddordeb mewn cyfarfodydd drwy gwblhau’r ffurflen priodol.

13. Mae cadeiryddion yn atgoffa aelodau i wneud hynny fel rhan o’r datganiad agoriadol mewn pwyllgorau ac mae ffurflenni ar gael gan glerc y pwyllgor. Cyfrifoldeb aelodau unigol ydi sicrhau eu bod yn llenwi’r ffurflen.

**Cofrestr rhoddion a lletygarwch**

14. Cynhaliwyd adolygiad dros yr haf o gofrestrau rhoddion a lletygarwch aelodau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar y wefan yn gyflawn.

15. Mae dyletswydd ar aelodau yn unol a'r Cod Ymddygiad i hysbysu'r awdurdod o roddion a lletygarwch sy'n uwch na'r trothwy yn y Protocol Rhoddion a Lletygarwch o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn a chaiff y wybodaeth ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Cofnodion Hyfforddiant**

16. Mae cofnodion hyfforddiant aelodau ar wefan y Cyngor wedi eu diwygio a'u diweddaru.  Er mwyn sicrhau eu bod yn gyson a chyfredol caiff diweddariadau hyfforddiant eu mewnbynnu gan swyddogion democrataidd.

17. Caiff diweddariadau chwarterol ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol.  Mae hynny'n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol.

**Calendr cyfarfodydd Pwyllgor**

18. Mae calendr newydd cyfarfodydd pwyllgor wedi ei greu yn Outlook yn ddiweddar. Mae'n cynnig ffordd hwylus o weld pryd caiff pwyllgorau eu cynnal ac yn hwyluso cynllunio a threfnu cyfarfodydd.

19. Bydd gwaith yn dechrau ar galendr pwyllgorau 25/26 yn fuan, h.y. o Mai 2025 ymlaen.  Y bwriad ydi cadarnhau'r calendr erbyn diwedd Ionawr a dechrau anfon gwahoddiadau i aelodau yn fuan ar ôl hynny.

**Argymhelliad**

20. I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

This page is intentionally left blank